# LISVANE & LLANISHEN RESERVOIRS

## Update Newsletter – April 2021

This is not a circular
Owner/Occupier

## Hello!

Welcome to the Spring newsletter to update you on what has been happening at Lisvane and Llanishen reservoirs and plans for the next few months.

## Proposed Visitor Hub

In the December newsletter we updated you to let you know the formal planning application has been submitted to Cardiff Council.

We have responded to the statutory consultees and are now awaiting the Planning Committee date. Documents can be reviewed on Cardiff Council's Planning Portal using reference application no: 20/02175/MJR.



## Friends of Cardiff Reservoirs

Since the last update some exciting developments have taken place to support the formation of Welsh Water's first Friends of Group.

The name of the group has been decided upon; it was felt that Friends of Cardiff Reservoirs represents the site's unique urban heritage and the community campaign to save the site from development, whilst also ensuring the reservoirs are an asset for Cardiff. We hope you agree. We would like to say a big thank you to those who came forward to form working groups; these groups have been busy behind the scenes volunteering their time to help draft the constitution and policies, develop a website and work with Rhydypenau Primary school to hold a logo design competition.

Your time, knowledge and input has been very much appreciated – this has been a true community effort.



We've received some excellent logo submissions, 31 in total, and the winning design has had their logo professionally designed by Tom, Director of Design Tribe, who has kindly volunteered his time and expertise as someone who has registered their interest in the group. The standard was very high, so it was a tough decision, but the winning design stood out as it captures both reservoirs and the special features of the site.

Well done to all pupils who submitted a design, Tom was so impressed with the creativity, Design Tribe have sponsored a prize to acknowledge every child who entered the competition. The new website is now live and has the logo proudly displayed – **www.friendsofcardiffreservoirs.org**

The new website enables all those who have registered an interest to now sign up as members and formalise the independently constituted group – over 140 registrations of interest have now been received! A big thanks to the Reservoir Action Group (RAG) too. As an ENRaW Project partner they have been instrumental in supporting the formation of the group, sharing knowledge and expertise, contributing time as volunteers, and resourcing the initial set up costs of the group.

We appreciate everyone's time and effort and look forward to a long-term working relationship with the community and Friends of Cardiff Reservoirs, helping us design and develop volunteering projects and activities.

## Woodlands Restoration

Between January – March we have been able to start the restoration of the woodlands.

The first phase of the project has been working with Wildlife Trust of South and West Wales, who are currently developing the Woodland Management Plan. We have also conducted a tree safety survey and started to remove the dead trees – which will see the wood reclaimed and used for signage and benches around the site.

The project is now moving to the next phase which includes the removal of waste and invasive species. This in turn will enable the regeneration of woodland flora and fauna as well as plant connecting hedgerows which serve as wildlife corridors.

We currently have our seasonal rangers on site, clearing waste that has accumulated over the years. To help us reduce our carbon footprint we will be looking to work with volunteers and community groups to turn appropriate abandoned material into habitat features rather than send it to landfill.

Whilst we address all the safety issues and take measures to protect the sensitive ecology, the woodland is not open to public access unless it is part of an organised and supervised activity.



## Community Engagement

We know that the site is a unique natural resource of significant ecological value in the heart of an urban area. Over the past six months we have been working with ecologists to carry out species surveys for overwintering wildfowl and waxcap fungi – both of which are protected under SSSI status. (Site for Special Scientific Interest).

However, the reservoirs are home to a wider range of species which rely on the biodiversity of the site and its surrounding areas. As part of the ENRaW scheme we are able to understand more about the diversity of the ecology and will be carrying out bat surveys during the months of May to August.

An important part of the scheme is working in collaboration to co-create education programmes to raise awareness of the ecological value of the site.

We were therefore delighted to support Cardiff University and Cardiff Metropolitan University who worked in partnership to support local primary schools, Christ the King and Thornhill, to create school curricula based on the reservoirs.

Unfortunately, due to COVID-19, the pupils involved in the project are yet to visit the site – but have been lucky enough to work with second year undergraduate education students who have delivered virtual sessions on outdoor learning and well-being.

It is not just the primary school pupils who have taken on the challenge to learn more about the reservoirs. University students studying for their MSc in Tourism and Event Management are currently researching into sustainable travel and understanding the best ways to promote and encourage sustainable travel to Lisvane and Llanishen reservoirs once open to the public. Whilst first year education undergraduates will be embarking on the challenge of a 'virtual' work experience placement to develop numeracy and digital literacy learning resources – all based on the reservoirs.

Any organisations, community groups or charities which would be interested in finding out more about the partnership opportunities which could be available at the site can email us at **lisvaneandllanishen@dwrcymru.com**

## Reservoir Update

Llanishen reservoir is once again filling up and returning to its previous glory.

However, as the weather warms up, we would like to highlight the significant dangers of swimming in reservoirs. Unauthorised swimming at any of our reservoirs is prohibited and extremely dangerous, very cold, deep water can cause even strong swimmers to find themselves in difficulty.

The site does remain closed to the public, we have security present and Welsh Water staff will be visiting on a regular basis.



# CRONFEYDD DŴR LLYS-FAEN A LLANISIEN

## Newyddlen Wybodaeth — Ebrill 2021

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

### Helo!

Croeso i newyddlen y Gwanwyn sy'n rhannu'r newyddion am beth sydd wedi bod yn digwydd yng nghronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien, a'r cynlluniau ar gyfer y misoedd nesaf.

## Yr Hyb i Ymwelwyr

Yn newyddlen mis Rhagfyr, rhoesom wybod i chi ein bod wedi cyflwyno'r cais cynllunio ffurfiol i Gyngor Caerdydd.

Rydyn ni wedi ymateb i'r ymgyngoreion statudol ac erbyn hyn rydyn ni'n aros i glywed pryd y cynhelir cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Gallwch weld y dogfennau ar Borth Cynllunio Cyngor Caerdydd gan ddefnyddio'r cyfeirnod: 20/02175/MJR.



## Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd

Mae diweddariadau cyffrous wedi bod wrth sefydlu Grŵp Cyfeillion cyntaf Dŵr Cymru ers y newyddlen ddiwethaf. Penderfynwyd ar enw'r grŵp; roedd yna deimlad cryf bod Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd yn cynrychioli treftadaeth drefol unigryw'r safle ac ymgyrch y gymuned i achub y safle rhag ei ddatblygu, gan sicrhau bod y cronfeydd yn aros yn ased ar gyfer Caerdydd. Gobeithio y byddwch chi'n cytuno.

Hoffem ddiolch o galon i'r rhai a wirfoddolodd i fod yn rhan o'r gweithgorau; mae'r gweithgorau hyn wedi bod wrthi'n brysur y tu ôl i'r llenni'n gwirfoddoli eu hamser i helpu i ddrafftio'r cyfansoddiad a'r polisïau, datblygu gwefan a gweithio gydag Ysgol Gynradd Rhydypennau i gynnal cystadleuaeth dylunio logo. Rydyn ni wir wedi gwerthfawrogi eich amser, eich gwybodaeth a'ch mewnbwn – yn wir, mae hi wedi bod yn ymdrech gymunedol go iawn.

Cawsom gynigion bendigedig ar gyfer y logo, 31 ohonynt i gyd, ac mae Tom, Cyfarwyddwr Design Tribe, sydd wedi bod mor garedig â gwirfoddoli ei amser a'i arbenigedd fel rhywun a fynegodd ddiddordeb yn y grŵp, wedi dylunio'r logo buddugol yn broffesiynol.

Roedd y safon yn uchel iawn, felly roedd hi'n benderfyniad anodd, ond daeth y dyluniad buddugol i'r brig am ei fod yn cyfleu'r ddwy gronfa a nodweddion arbennig y safle i'r dim.




Da iawn i'r holl ddisgyblion a gyflwynodd ddyluniad, roedd Tom wrth ei fodd ar eu creadigrwydd ac mae Design Tribe wedi noddi gwobr i gydnabod ymdrechion pob plentyn a gymerodd ran yn y gystadleuaeth. Mae'r wefan newydd wedi mynd yn fyw ac mae'n arddangos y logo newydd â balchder – **www.friendsofcardiffreservoirs.org**

Mae'r wefan newydd yn rhoi cyfle i bawb sydd wedi mynegi diddordeb gofrestru fel aelodau a ffurfioli'r grŵp â chyfansoddiad annibynnol – mae dros 140 o gofrestriadau o ddiddordeb wedi dod i law erbyn hyn! Diolch o galon i Grŵp Gweithredu'r Gronfa (RAG) hefyd. Fel partner yn y Prosiect ENRaW, mae RAG wedi bod yn allweddol wrth hwyluso'r gwaith o ffurfio'r grŵp gan rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd, cyfrannu eu hamser fel gwirfoddolwyr, a darparu'r adnoddau er mwyn sefydlu'r grŵp.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich amser a'ch ymdrechion chi i gyd ac rydyn ni'n edrych ymlaen at feithrin perthynas gweithio tymor-hir gyda'r Gymuned a gyda Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd wrth i chi ein helpu ni i ddatblygu prosiectau a gweithgareddau gwirfoddoli.

## Adfer y Coetir

Rhwng Ionawr a Mawrth bu modd i ni ddechrau'r gwaith o adfer y coetiroedd.

Yn ystod rhan gyntaf y prosiect yma, rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, sydd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Rheoli Coetir ar gyfer y safle. Rydyn ni wedi cyflawni arolwg o ddiogelwch y coed hefyd ac wedi dechrau clirio'r coed marw – byddwn ni'n defnyddio'r pren o'r coed yma i greu arwyddion a meinciau ar gyfer y safle.

Mae'r prosiect yn symud ymlaen i'r cam nesaf nawr, sy'n cynnwys clirio gwastraff a rhywogaethau goresgynnol. Yn ei dro, bydd hyn yn caniatáu ar gyfer adfywiad y fflora a'r ffawna, a chaiff coedwrychoedd cysylltiol eu plannu er mwyn creu coridorau ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae ein gofalwyr tymhorol ar y safle ar hyn o bryd yn clirio'r gwastraff sydd wedi cronni dros y blynyddoedd. Mewn ymdrech i leihau ein hôl troed carbon, rydyn ni'n bwriadu gweithio gyda gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i droi'r deunyddiau gwastraff addas yn nodweddion cynefinoedd yn hytrach na'u hanfon i'w tirlenwi.

Nid yw'r coetir yn agored i'r cyhoedd wrth i ni fynd i'r afael â'r holl faterion diogelwch a chymryd mesurau i amddiffyn yr ecoleg sensitif, oni bai ei bod hi'n rhan o weithgaredd wedi ei drefnu a dan oruchwyliaeth.



## Cysylltiadau â'r Gymuned

Rydyn ni'n gwybod bod y safle'n adnodd naturiol unigryw o werth ecolegol sylweddol wrth galon ardal drefol. Dros y chwe mis diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag ecolegwyr i gyflawni arolygon o'r rhywogaethau o adar gwyllt sy'n treulio'r gaeaf yma a'r ffwng cap cwyr – y mae'r naill a'r llall yn cael eu hamddiffyn o dan statws SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) y safle.

Fodd bynnag, mae'r cronfeydd yn gartref i amrywiaeth ehangach o rywogaethau sy'n dibynnu ar fioamrywiaeth y safle a'r ardaloedd cyfagos. Trwy'r cynllun ENRaW, gallwn ddod i ddeall rhagor am amrywiaeth yr ecoleg sydd yma, a byddwn ni'n cyflawni arolygon o'r ystlumod rhwng misoedd Mai ac Awst eleni.

Un rhan bwysig o'r cynllun yw cydweithio i gyd-greu rhaglenni addysg i godi ymwybyddiaeth am werth ecolegol y safle.

Roeddem ni wrth ein boddau felly i gynorthwyo Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a fu'n gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo ysgolion cynradd lleol, Crist y Brenin a Thornhill, i greu cwricwla ysgol yn seiliedig ar y cronfeydd.

Yn anffodus, nid yw'r disgyblion a gymerodd ran yn y prosiect wedi gallu ymweld â'r safle hyd yn hyn oherwydd COVID-19 – ond maent wedi bod yn ddigon ffodus i weithio gydag israddedigion addysg yr ail flwyddyn sydd wedi cyflwyno sesiynau rhithwir ar addysg awyr agored a llesiant.

Nid disgyblion yr ysgolion cynradd yw'r unig rai sydd wedi cymryd yr her i ddysgu rhagor am y cronfeydd. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr prifysgol sy'n astudio ar gyfer gradd MSc mewn Twristiaeth a Rheoli Digwyddiadau'n ymchwilio i deithio cynaliadwy er mwyn deall y ffyrdd gorau o hyrwyddo a hybu teithio cynaliadwy i gronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien pan fydd y safle'n agor i'r cyhoedd. A bydd israddedigion addysg y flwyddyn gyntaf yn cychwyn yr her o gyflawni lleoliad profiad gwaith 'rhithwir' i ddatblygu adnoddau dysgu rhifedd a llythrennedd digidol oll yn seiliedig ar y cronfeydd.

Dylai unrhyw sefydliadau, grwpiau cymunedol neu elusennau sydd am gael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd partneriaeth a allai fod ar gael ar y safle anfon neges e-bost atom yn **lisvaneandllanishen@dwrcymru.com**

## Newyddion am y Cronfeydd

Mae cronfa ddŵr Llanisien yn llenwi â dŵr ac yn dychwelyd i'w hen ogoniant.

Ond wrth i'r tywydd gynhesu, hoffem eich atgoffa pa mor beryglus yw nofio mewn cronfeydd dŵr. Ni chaniateir nofio diawdurdod yn unrhyw un o'n cronfeydd, ac mae'n eithriadol o beryglus, gall dŵr oer iawn a dwfn beri i'r nofwyr cryfaf hyd yn oed fynd i drafferthion.

Mae'r safle'n dal i fod ar gau i'r cyhoedd, mae swyddogion diogelwch yn bresennol ac mae staff Dŵr Cymru'n ymweld yn gyson.

